**'Croeso'n Ôl' i Twristiaeth**

Mae busnesau ledled Cymru'n paratoi i ail-agor, neu i ehangu eu gweithgareddau presennol, cyn gynted ag y bydd y llywodraeth yn cytuno iddynt wneud hynny. Bydd y cwrs hwn yn canolbwyntio ar ddarparu fframwaith i chi allu cynllunio i ail-agor yn ddiogel a llwyddiannus, gan sicrhau bod eich busnes yn ffynnu dan y drefn newydd fydd ohoni.

Bydd y rhaglen yn cynnwys pecyn o adnoddau hanfodol fydd yn cael eu cyflwyno gan diwtoriaid arbenigol ar lwyfan dysgu ar-lein. Fe'i datblygwyd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth, hamdden a lletygarwch yng Ngogledd Cymru i ddychwelyd i fyd busnes.

Anelir y cwrs ar berchenogion, rheolwyr ac arweinwyr sy'n gyfrifol am wneud cynlluniau i ail-agor busnes neu ehangu ei weithgareddau, a rhoi'r cynlluniau hynny ar waith. Mae dewisiadau pellach ar gael i dimau gweithredol a thimau rheng flaen.

Bydd y rhaglen yn trafod tri maes pwnc:

- **Strategaeth** Sicrhau bod y penderfyniadau busnes cywir yn cael eu gwneud wrth ail-agor ac yn y dyfodol
- **Diogelwch** Dehongli canllawiau'r protocolau ar ddiogelwch ar gyfer eich lleoliad busnes.
- **Gwasanaeth** Datblygu hyder y cwsmeriaid a'r gymuned yn eich busnes.

Erbyn diwedd y cwrs ac yn dilyn asesiadau fydd o fantais i'ch busnes, byddwch yn derbyn tystysgrif i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r cwrs ac wedi cael Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Asesu Risg. Mae elfennau strategol y cwrs hefyd yn gymwys ar gyfer ardystiad fel rhan o gymhwyster gan Brifysgol Bangor. [1]

Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal dros 9 sesiwn hanner diwrnod a chaiff y tair thema'u cydblethu i gefnogi eich gwaith cynllunio. Mae'r rhan gychwynnol yn digwydd dros 7 diwrnod gwaith ac yn dilyn yr hyfforddiant cychwynnol cewch hyfforddiant i'ch cefnogi trwy'r cyfnod ail-agor ac wedi hynny.

Gallwch ddewis o blith y pedair rhaglen (9 sesiwn hanner diwrnod), sy'n cael eu cynnal:

A - 6 Gorffennaf - 14 Gorffennaf 2020

B - 20 Gorffennaf - 28 Gorffennaf 2020

Cost y rhaglen yw £99 y pen. Mae cymhorthdal ar gael yn ddibynnol ar fodloni'r meini prawf.

Archebwch eich lle ar-lein https://www.gllm.ac.uk/courses/2147492405/?LangType=1106 , ffoniwch 08445 460 460 neu anfonwch neges e-bost i busnes@gllm.ac.uk i gysylltu ag Ymgynghorydd Datblygu Busnes.

***Busnes@LlandrilloMenai***
www.gllm.ac.uk/busnes

1 Aros am ddilysiad, darperir ar y cyd â Phrifysgol Bangor

**Rhagor o fanylion am gynnwys y cwrs**

**Strategaeth –** Dan arweiniad Laurence Cox, Mike Scott neu Eleri Llwyd o Academi Busnes Gogledd Cymru (NWBA)

**Teitl: Croeso'n Ôl i'ch Busnes ar ôl Covid-19**

Bwriad y cwrs yw darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu i adolygu arferion busnes presennol yng nghyd-destun effaith a chanlyniadau'r pandemig Covid-19. Byddwch yn datblygu model, tactegau a chynlluniau busnes ynghylch sut y bydd eich busnes yn gweithredu yn y dyfodol. Mae'r cwrs yn edrych ar angen cyson busnesau i arloesi a diwygio.

Cynhelir trafodaethau grŵp ar heriau cyffredin ond bydd y pwyslais pennaf ar ail-agor busnesau. Rhoddir sylw hefyd i gydweithio a rhannu arferion gorau.

Hyd: 4 sesiwn 2.5 awr fydd yn cynnwys gweithgareddau asesu perthnasol i lwyddiant eich busnes. Yn ogystal, wedi i chi agor cewch sesiynau mentora unigol.

**Diogelwch** – Dan arweiniad Huw Huws (Iechyd a Diogelwch) a Basil Gillet (Diogelwch Bwyd)

**Teitl: Dehongli Canllawiau Diogelwch yn dilyn Covid-19**

Hyfforddiant ynghylch hanfodion cynnal ac ysgrifennu asesiadau risg a datganiadau dull i chi a'ch staff er mwyn rhoi canllawiau diogelwch ar waith. Gallwch wneud modiwl dilynol ar ddiogelwch bwyd os yw'n berthnasol i chi, yn gost ychwanegol. Mae'n cynnwys sut i baratoi 'Sgyrsiau Bocs Tŵls' i roi briffiau rheolaidd i staff am sut i roi arferion gwaith diogel ar waith ar sail asesiadau risg.

Hyd: 2 sesiwn 3 awr a ddilynir gan weithgareddau all-lein ar baratoi asesiadau risg a datganiadau dull. Cewch adborth ar eich dogfennau mewn sesiynau mentora grŵp.

**Gwasanaethau –** Dan arweiniad Tansy Rogerson – Ymgynghorydd Datblygu Busnesau Twristiaeth

**Teitl: Bod yn agosach at eich cwsmeriaid – o bell**

Sut i ail-ddehongli eich brand a'ch gwasanaeth dan y "drefn newydd fydd ohoni", gan ddechrau trwy greu diwylliant gofalgar. Yna bydd angen sicrhau diogelwch a hyder y cwsmeriaid yn eich gwasanaeth gan ragweld beth fydd yr heriau ac ymateb iddynt. Bydd hyn eich galluogi i ailgysylltu â'ch cwsmeriaid a'ch cymunedau. Mae'n cynnwys paratoi 'Sgyrsiau Tîm' fel bod eich holl dîm yn rhan o'r un strategaeth.
Modiwl ar weithio fel un tîm ar gael, yn gost ychwanegol.

Hyd: 1 sesiwn ryngweithiol 3 awr ar-lein a ddilynir gan weithgaredd all-lein ar baratoi "Sgyrsiau tîm" a sesiwn mentora grŵp.

Busnes@ LlandrilloMenai

# ‘Welcome Back’ for Tourism

Businesses across Wales are preparing to re-open, or to expand their current operations, as soon as government agrees. This focused course will equip you with a framework to plan and implement your re-opening safely and successfully, and to ensure your business is able to thrive in the new normal.

The programme is a package of essentials delivered live by expert tutors through an online learning platform. It has been developed to support the North Wales tourism, leisure and hospitality industry to get back into business.

The course is aimed at owners, managers and leaders with the responsibility for planning or implementing safe re-opening and expansion. Further options are available for operational and frontline teams.

The programme will cover three subject areas:

- **Strategy** Making the right business decisions for re-opening and into the future.
- **Safety** Interpreting safety guidance protocols for your business setting.
- **Service** Developing customer and community confidence in your business.

By the end of the course and following business-benefit-focused assessments, you will receive a certificate confirming your completion of the course as well as qualifying for a Highfield Level 2 Award in Risk Assessment. The strategic elements of the course are also eligible for certification as part of a Bangor University qualification[2].

The programme takes place over 9 half day sessions with the three themes interwoven to support your planning. The initial phase is focused over 7 working days with mentoring after the initial training to support you over and beyond the re-opening period.

Choose from one of four programmes (9 half day sessions), taking place:

A - 6th July - 14th July 2020

B - 20th July - 28th July 2020

The programme is £99 per person.

Book your places online at https://www.gllm.ac.uk/courses/2147492405/ or call 08445 460 460 or email busnes@gllm.ac.uk to contact a Business Development Advisor.

## Busnes@LlandrilloMenai

www.gllm.ac.uk/busnes

## More detail on course content

[2] Pending validation, delivered in conjunction with Bangor University

| | |
|---|---|
| **Strategy** | Led by Laurence Cox, Mike Scott or Eleri Llwyd Jones of the North Wales Business Academy ( NWBA)<br>**Title: Welcoming Back your Business after Covid 19**<br>This course aims to provide knowledge, understanding and ability to review current business practice in the context of the impact and consequences of the Covid-19 pandemic. You will develop a business model, tactics and plans for future business operations. The course reflects upon the continual need for innovation and revising business operations.<br>Facilitated group discussion on the shared challenges but with a particular emphasis on re-opening for business. Collaborate & share best practice.<br>Duration: 4 x 2.5 hour sessions, with embedded assessed activities relevant to your business success. Plus individual mentoring sessions, post-opening, reflecting on your implementation. |
| **Safety** | Led by Huw Huws (Health & Safety)<br>**Title: Interpreting Safety Guidance post Covid 19**<br>Training on the essentials of carrying out and writing a risk assessment and method statements for you and your staff to implement safety guidance. Follow-on food-safety related module, where applicable, at extra cost. Includes the preparation of 'Toolbox Talks', to enable consistent briefing of staff to implement safe, risk-assessed working practices.<br>Duration: 2 x 3 hour sessions, followed by offline activity in risk assessment and method statement preparation. Follow-up group mentoring giving feedback on your documentation. |
| **Service** | Led by Tansy Rogerson – Tourism Business Development Consultant<br>**Title: Get closer to your customer - from a distance**<br>How to re-interpret your brand and service in the "new normal", starting with creating a caring culture, then embedding safety and sparkle, building confidence in your service, anticipating challenges and how to address them. This will enable you to re-engage with your customers and communities. Includes the preparation of 'Team talks' enabling whole-team buy in of your service strategy. Whole team module available, at extra cost.<br>Duration: 1 x 3 hour interactive session online, followed by offline activity in preparing your "Team talk" and follow-up group mentoring session. |